

---

## **Y Gronfa Radio Cymunedol**

Adroddiad diwedd blwyddyn: 2019/20

---

# Contents

---

## **Adran**

- |   |   |
|---|---|
| 1. Trosolwg   | 1 |
| 2. Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2019/20 | 2 |

## **Atodiad**

- |  |   |
|--|---|
| A1. Dyfarniadau i orsafoedd yn 2019/20 | 6 |
|--|---|

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar sut cafodd y Gronfa Radio Cymunedol ei gweinyddu yn 2019/20. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi gofyn i Ofcom weinyddu Cronfa Radio Cymunedol. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn rhoi swm o arian i'r Gronfa bob blwyddyn a chaiff grantiau eu dyfarnu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom.

Mae'r adroddiad yn nodi faint o arian a roddwyd ar ffurf grantiau, pa orsafoedd a gafodd grantiau ac at ba ddibenion y dyfarnwyd y grantiau.

## 2. Y Gronfa Radio Cymunedol - Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2019/20

- 2.1 Mae'r Gronfa Radio Cymunedol ('y Gronfa') yn bodoli i helpu'r rheini sy'n dal trwyddedau radio cymunedol a chefnogi costau craidd sy'n codi wrth ddarparu gwasanaethau radio cymunedol.
- 2.2 Mae Ofcom yn gweinyddu'r Gronfa ar ran yr Adran dros faterion Digidol, Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r arian sy'n cael ei ddyrannu i'r Gronfa yn cael ei roi ar ffurf grantiau, yn dilyn proses ymgeisio ffurfiol.
- 2.3 Panel y Gronfa Radio Cymunedol ('y Panel') sy'n penderfynu ar y ceisiadau am grant ac mae'r Panel yn adrodd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom.<sup>1</sup>
- 2.4 Roedd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi dyrannu £400,000 i'r Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Yn ogystal, fe wnaeth y DCMS ddyrannu £30,448 i'r Gronfa ar gyfer yr ail rownd. O ganlyniad roedd £430,448 ar gael ar gyfer y flwyddyn.
- 2.5 Cyfarfu'r Panel ddwywaith yn ystod y flwyddyn i ystyried y ceisiadau am grantiau, ym mis Mehefin 2019 ac ym mis Ionawr 2020.

### Crynodeb o'r taliadau

- 2.6 Yn y rownd gyntaf, dyfarnwyd gwerth £182,236 o grantiau i 11 gorsaf.
- 2.7 Yn yr ail rownd, dyfarnwyd gwerth £245,408 o grantiau i 15 gorsaf arall.
- 2.8 Dros y ddwy rownd cyllido, cafodd 72 o geisiadau eu hystyried, gan ofyn am gyfanswm o £1,444,814 (£675,182 yn y rownd gyntaf a £769,632 yn yr ail rownd). Roedd pump o ymgeiswyr wedi cyflwyno cais yn y naill rownd a'r llall, ac roedd dau ohonynt yn llwyddiannus yn yr ail rownd.
- 2.9 Roedd y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn yn amrywio o £6,830 i £34,320, gyda'r taliad cyfartalog yn £16,447.85. Mae rhestr o'r gwobrau unigol ar gael yn Atodiad 1.

### Blaenoriaethau'r Panel

- 2.10 Mae Ofcom yn cyhoeddi datganiad gan y Panel yn dilyn pob rownd cyllido sy'n nodi'r dyfarniadau a wnaed, yn ategu blaenoriaethau cyllido parhaus y Panel, ac yn gwneud sylwadau ychwanegol.

---

<sup>1</sup> Yn flaenorol, roedd y Panel yn adrodd i Fwrdd Ofcom. Fe wnaeth Bwrdd Ofcom adolygu'r Fframwaith Dirprwyo Awdurdod ym mis Gorffennaf 2019 gan gytuno mai i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom y bydd y Panel yn adrodd o hyn ymlaen.

- 2.11 Yn y datganiadau, mae'r Panel yn pwysleisio na all roi grantiau i bob gorsaf sy'n gwneud cais gan mai hyn a hyn o arian sydd ar gael i'w roi ar ffurf grantiau. Mae'n ystyried pob cais, ynghyd â'r deunyddiau cysylltiedig, ac yn ystyried lefel angen yr ymgeiswyr, yn ogystal â'r budd a ddisgwylir o bob grant.
- 2.12 Yn y flwyddyn ariannol 2019-20 fe wnaeth y Panel barhau i ystyried bod codi arian a hyrwyddo cynaliadwyedd tymor hir yn weithgareddau craidd, hanfodol. Roedd felly'n parhau i ffafrio cynigion sydd â'r nodau hyn. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr egluro sut byddai grant yn helpu sefydlogrwydd ariannol ac i osod targedau ariannol clir ar gyfer y swyddogaethau codi arian. Roedd y Panel hefyd yn parhau i gredu bod modd cydweithio neu gyflwyno ceisiadau ar y cyd rhwng gorsafoddedd.
- 2.13 Roedd llawer o'r ceisiadau am grant yn 2019/20 ar gyfer swyddi datblygu busnes a chodi arian. Fe wnaeth y Panel ariannu dwy swydd na fyddai'r Panel yn eu hariannu fel arfer, Prif Swyddog Gweithredol a Rheolwr Datblygiad a Chynnwys Cymunedol. Fe wnaeth yr ymgeiswyr ddangos sut y byddai'r swyddi hyn yn helpu i ddatblygu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer yr orsaf dan sylw.
- 2.14 Mae'r datganiadau cryno o'r dyfarniadau, a sylwadau ychwanegol gan y Panel, ar gael o [dudalen y Gronfa Radio Cymunedol](#) ar wefan Ofcom.

## Monitro grantiau

- 2.15 Mae gan y Panel weithdrefn adrodd ar waith i wneud yn siŵr bod y dyfarniadau grant yn cael eu gwario fel y cytunwyd arno. Rhoddir cytundeb grant ar waith rhwng Ofcom a phob trwyddedai sy'n cael grant, ac mae hwn yn nodi telerau'r dyfarniad, gan gynnwys cyfnod gwario. Ar ddiwedd cyfnod gwario'r grant, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau adroddiad (yr 'adroddiad grant') sy'n rhoi manylion ynghylch sut roedden nhw wedi gwario eu grant o'r Gronfa. Ar ben hynny, gofynnir am adroddiadau grant interim hanner ffordd drwy'r cyfnod gwario perthnasol. Nod yr adroddiadau interim ydy helpu i dynnu sylw at unrhyw broblemau posibl a allai ddeillio o wario'r grant. Os na chyflwynir adroddiad boddhaol, efallai y bydd y Panel yn gofyn am y grant yn ôl ac efallai na fydd yn ystyried rhoi grant arall i'r trwyddedai.
- 2.16 Os bydd trwyddedai yn rhoi'r gorau i ddal ei drwydded darlledu (ee drwy ildio neu ddirymu) tra bydd cytundeb grant mewn lle, bydd yn rhaid talu'n ôl unrhyw arian grant nad ydyw wedi cael ei wario yn llawn.
- 2.17 Ar gyfer y rownd gyntaf o gyllid yn 2019/20, roedd yn rhaid cyflwyno'r adroddiadau interim yn ystod mis Mawrth 2020, a chyflwyno'r adroddiadau terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Ond, oherwydd y Coronafeirws, rydyn ni wedi gohirio ein cais am adroddiadau interim. Cafodd nifer o adroddiadau eu darparu fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer rownd 2020/21 ym mis Mai 2020 ac maen nhw'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
- 2.18 Nid oes yn rhaid cyflwyno'r adroddiadau grant interim ar gyfer yr ail rownd o gyllid yn 2019/20 tan ddiwedd mis Hydref 2020, a chyflwyno'r adroddiadau grant terfynol erbyn mis Gorffennaf 2021. Oherwydd y Coronafeirws, gofynnodd rai gorsafoddedd am estyniad i

gyfnod eu grant pan gafodd eu grant ei dalu. Cytunwyd ar yr estyniadau hyn a newidiwyd y dyddiadau adrodd.

- 2.19 Cafwyd adroddiadau grant yn ystod y flwyddyn ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd o'r Gronfa yn ystod 2017/18 a 2018/19. Mae Ofcom yn edrych yn ofalus ar bob adroddiad ac yn gofyn am esboniadau gan y rheini a dderbyniodd grantiau os bydd angen.
- 2.20 Roedd pob adroddiad grant a dderbyniwyd yn 2019/20 yn foddhaol.
- 2.21 Ym mis Mai 2020, fe wnaeth un o'r rhai a gafodd gyllid o rownd 2018/19 ofyn am gael newid pwrpas eu grant er mwyn newid disgrifiad swydd eu Rheolwr Datblygu Busnes i Reolwr Cyswllt Cymunedol. Cytunodd y Panel i'r newid dros dro hwn o ystyried yr amgylchiadau eithriadol. Fe wnaeth un arall o'r rhai a gafodd gyllid yn 2018/19 ofyn am gael defnyddio'r grant ar gyfer cyllid argyfwng ym mis Mai 2020. Cytunodd y Panel i'r newid hwn ond roedden nhw'n gobeithio y byddai'r derbynnydd yn gallu defnyddio cymaint â phosib o'r grant ar gyfer y dibenion gwreiddiol.
- 2.22 Fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer grantiau 2020/21, gofynnodd un o'r rheini gafodd gyllid yn 2019/20 am gael defnyddio'r grant ar gyfer cyllid argyfwng. Wnaeth y Panel ddim cytuno i'r newid hwn ond fe wnaethon nhw gytuno i ymestyn cyfnod y grant.

## Y sector radio cymunedol a dyfodol y Gronfa

- 2.23 Mae'r sector radio cymunedol wedi parhau i dyfu: roedd 298 o orsafoedd yn darlledu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20, wrth gymharu â 283 yn 2018/19.
- 2.24 Fe wnaethon ni orffen y rownd olaf o drwyddedu radio cymunedol analog ym mis Mai 2020<sup>2</sup>, gan ddilyn ein [diweddariad o ran ein blaenoriaethau ar gyfer Radio Cymunedol](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019.
- 2.25 Fel rhan o'n gwaith yn trwyddedu gwasanaethau DAB graddfa fach, bydd trwyddedau gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol (C-DPS) yn dechrau dod ar gael ym mis Medi 2020, ochr yn ochr â'r hysbyseb ar gyfer amblecs ar raddfa fach mewn ardaloedd penodol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w chael yn y [Diweddariadau Darlledu Gwasanaethau Radio Mai 2020](#) ar ein gwefan. Bydd deiliaid trwyddedau C-DPS yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa a byddwn ni'n cyhoeddi gwybodaeth am hyn cyn y rownd gyntaf y byddan nhw'n gallu ymgeisio.
- 2.26 Mae cytundeb cyllido cyfredol Ofcom gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cael ei ymestyn i gynnwys blwyddyn ariannol 2020/21.

---

<sup>2</sup> Rydyn ni wedi gwahoddi ceisiadau gan ddarpar wasanaethau radio cymunedol yn nhref Northampton gyda dyddiad cau o 13 Gorffennaf 2020. Mae hyn oherwydd bod yr ymgeisydd presennol wedi methu â chyrraedd y dyddiad cau statudol ar gyfer cyflwyno cais i ymestyn hyd ei drwydded, ond dywedodd ei fod eisiau parhau i ddarlledu.

## Aelodau'r Panel

2.27 Mae'r Panel yn cynnwys tri aelod a benodwyd gan Ofcom. Ar gyfer 2019/20 dyma oedd yr aelodau:

- Wendy Pilmer, Cadeirydd y Panel, ac ymgynghorydd sy'n gweithio gyda darlledwyr gorau'r byd i weithredu strategaethau rheoli newidiadau;
- Richard Hilton, sy'n Uwch Bartner Busnes Ariannol gyda Busnes yn y Gymuned, elusen a sefydliad aelodaeth sy'n gweithio gyda chwmnïau i wella effaith gadarnhaol busnes ar gymdeithas; a
- Fiona Lennox, un o weithwyr Ofcom, sydd â phrofiad helaeth o strategaethau cyfathrebu, polisi, ymchwil a rheoli.

# A1. Dyfarniadau i orsafoedd yn 2019/20

## Rownd 1

Dyfarniad	Diben	Enw'r orsaf	Lleoliad
£13,728	Rheolwr Codi Arian a Hyrwyddo	Awaaz FM	Southampton
£6,830	Rheolwr Strategaeth Busnes	BRFM 95.6 FM	Sheerness, Ynys Sheppey
£19,217	Swyddog Datblygu Busnes	Burgess Hill Radio	Burgess Hill, Surrey
£12,706	Cynrychiolwr Gwerthu a Datblygu Technegol Darlledu a TG	Glastonbury FM	Glastonbury, Gwlad yr Haf
£9,386	Rheolwr Busnes	Legacy 90.1	Hulme, Manceinion
£16,000	Swyddog Gwerthu a Chyllid	Paisley FM	Paisley, Renfrewshire
£18,000	Rheolwr Datblygiad a Chynnwys Cymunedol*	Radio Newquay	Newquay, Cernyw
£34,320	Prif Swyddog Gweithredol	Resonance FM	Canol Llundain
£17,130	Rheolwr Datblygu Busnes	Salford City Radio	Salford, Manceinion Fwyaf
£22,919	Rheolwr Codi Arian a Chynaliadwyedd	Sunshine	Dwyrain Belfast
£12,000	Swyddog Gwerthiant Hysbysebion a Nawdd	Eich FM	Stockport, Manceinion Fwyaf
<b>£182,236</b>	<b>Cyfanswm</b>		

*\*Dangosodd yr ymgeiswyr sut y byddai'r swyddi hyn yn helpu i ddatblygu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer yr orsaf dan sylw, er na fyddai'r Panel yn eu hariannu fel arfer.*

## Rownd 2

Dyfarniad	Diben	Enw'r orsaf	Lleoliad
£16,215	Cydlynnydd Cynladwyedd a Busnes	Bolton FM	Bolton
£20,000	Rheolwr Datblygu Busnes a Grantiau	Bradford Asian Radio	Bradford
£17,160	Rheolwr Nawdd a Gwerth Masnachol (£8,580) Rheolwr Ariannu Grantiau (£8,580)	Canalside's The Thread 102.8 FM	Bollington
£16,480	Cydlynnydd Datblygu Busnes	Cannock Chase Radio	Cannock and Rugeley, Swydd Stafford
£19,140	Rheolwr Codi Arian a Chynaliadwyedd	Hot Radio 102.8	Poole
£17,500	Cyflog Swyddog Cynaliadwyedd ac Ariannu	Hull Kingston Radio	Dwyrain Hull
£12,770	Codwr Arian	K107 FM	Kirkcaldy, Fife
£19,800	Rheolwr Busnes a Chynaliadwyedd	Maritime Radio	Greenwich
£14,977	Swyddog Cynaliadwyedd yr Orsaf	Penistone FM	Penistone, De Swydd Efrog
£8,500	Gwerthwr	Radio Verulam	St Albans
£20,568	Rheolwr Gorsaf/Ariannu	SFM 106.9	Sittingbourne
£8,424	Rheolwr Codi Arian a Chyswllt Cymunedol	Sheppey FM	Sheerness, Caint
£17,678	Rheolwr Datblygu Busnes	St Albans	Newport, Ynys Wyth
£16,420	Rheolwr Datblygu Prosiect Hyfforddi	WCR FM	Wolverhampton
£19,776	Swyddog Datblygu Busnes	YO1 Radio	Caerefrog
<b>£245,408</b>	<b>Cyfanswm</b>		